# PAPURAU BUSNES

## Rhan I - Adran D

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Hydref 2000

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno'n Gymraeg.**

**(Dangosir Rhifau Gwreiddiol y Cwestiynau mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ddatganiad am y berthynas rhwng y diwydiant cartrefi nyrsio a phreswyl preifat a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. (WAQ7244)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ystyried sefydlu gweithgor i ddadansoddi'r anawsterau presennol yn y sector cartrefi preswyl a nyrsio preifat.(WAQ7243)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth y mae hi'n ei wneud i leihau'r pwysau ar y diwydiant cartrefi nyrsio a phreswyl yn y sector preifat. (WAQ7245)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Ysgrifennydd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd cynlluniau ôl-ofal rhyngasiantaethol ar gyfer cleifion â salwch meddwl ac effeithiolrwydd wrth weithredu cynlluniau wrth gefn priodol amseredig. (WAQ7240)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A yw hi wedi ystyried adolygu sut y bydd pobl â salwch meddwl yn cael eu hasesu o safbwynt risg. (WAQ7247)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Beth y mae'r Ysgrifennydd yn ei wneud i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng adrannau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yngln â chleifion â salwch meddwl sy'n cael eu hail integreiddio i'r gymuned. (WAQ7241)

**Peter Black(Gorllewin De Cymru);** A yw hi wedi astudio'r adroddiad annibynnol ar farwolaeth Carla Thompson dan law Daniel Joseph, ym mis Ionawr 1998, ac a fydd hi'n ystyried gweithredu unrhyw un o'r 32 o argymhellion a wnaed yngln â gwella gwasanaethau ar gyfer pobl fyddar sy'n dioddef salwch meddwl yng Nghymru? (WAQ7242)

Gofyn i'r Prif Ysgrifennydd

**Alison Halford (Delyn);** Beth a fydd yn ei wneud i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu

hysbysu am faterion lleol sy’n effeithio ar eu hetholaethau cyn bod datganiadau swyddogol yn cael eu gwneud gan Ysgrifenyddion a Swyddogion y Cynulliad yn y wasg a’r cyfryngau. (WAQ7232)

**Alison Halford (Delyn);** Pa gyfarwyddiadau y mae’n eu rhoi i Ysgrifenyddion y Cabinet, a’u Dirprwyon, er mwyn sicrhau eu bod yn glynu at y protocol o hysbysu’r Aelodau os oes bwriad i gynnal ymweliad swyddogol ag etholaethau’r Aelodau. (WAQ7233)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd**); Gan fod mwy o blant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu hintegreiddio i addysg y brif ffrwd, pa arian ychwanegol a fydd ar gael i ddiwallu anghenion ychwanegol y plant hynny sy’n aros mewn ysgolion arbennig. (WAQ72434)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Pryd y caiff Canllawiau Staffio Cymru ar gyfer NNEB’s eu hadolygu. (WAQ7239)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw wedi ymchwilio i weld pa reolau a rheoliadau, ‘mân reolau’ ar ddefnydd cyffredin, sy’n effeithio ar fusnesau, sydd wedi’u dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru . (WAQ7238)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ymchwil y mae’n ei gynnal i weld pa reolau a rheoliadau, ‘mân reolau’ ar ddefnydd cyffredin, sy’n effeithio ar fusnesau, sydd wedi’u dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ7237)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth fydd yr amserlen ar gyfer rhestru’r prif reolau a rheoliadau, ‘mân reolau’ ar ddefnydd cyffredin, sy’n effeithio ar fusnesau, sydd wedi’u dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ7236)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A fyddai gystal â rhestru’r prif reolau a rheoliadau, ‘mân reolau’ ar ddefnydd cyffredin, sy’n effeithio ar fusnesau, sydd wedi’u dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ7235)